## HYSBYSIAD O GYNNIG

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD)**
**(A541 FFORDD WRECSAM, CEFN – Y – BEDD)**
**(FFORDD GYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER 40mya)**
**(DIWYGIAD RHIF 13) 202-**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Adran 81, 82 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Rhan IV Atodlen 9 y Ddeddf, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a heb Gyfyngiad) 2023, i gyflwyno:

a) Ymestyn y Ffordd Gyfyngedig (terfyn cyflymder 20mya) bresennol ar yr A541 Ffordd Wrecsam, i gyfeiriad y de orllewin, fel y nodir yn Atodlen 1 yr hysbysiad hwn

### ATODLEN 1
### FFORDD GYFYNGEDIG

**A541 Ffordd Wrecsam:** O bwynt 385 medr o ganol y bont dros Afon Alun, ar y ffin rhwng Sir y Fflint a Wrecsam i gyfeiriad y gogledd orllewin, am 115 medr i gyfeiriad y gogledd orllewin.

### ATODLEN 2
### TERFYN CYFLYMDER 40MYA

**A541 FFORDD WRECSAM:** O ganol y bont dros Afon Alun, ar y ffin rhwng Sir y Fflint a Wrecsam, i bwynt 385 medr i gyfeiriad y gogledd orllewin.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig, os bydd dod i rym, yn diddymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Terfyn Cyflymder 40mya) (Rhif 1) 1966 yn ei gyfanrwydd a bydd yn cael ei gydgrynhoi yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol Ffyrdd Cyfyngedig a Heb eu Cyfyngu) 2023.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a’r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2023 yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o’r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, ynghyd ag Atodlenni Mapiau yn dangos y darnau o ffyrdd y mae’r cynnig yn effeithio arnynt a datganiad o resymau’r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Earl Road Yr Wyddgrug CH7 1AP yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â’r rhesymau dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod neu trwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk (gan ddyfynnu’r cyfeirnod SS/JB/A541/30mph/13) erbyn dydd Gwener 28 Chwefror 2025.

Dyddiedig Dydd Gwener 7 Chwefror 2025
Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF



**DYDDIEDIG XX XXXX 202-**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
# A541 FFORDD WRECSAM, CEFN Y BEDD
# (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 13) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X


**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 6NF**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**A541 FFORDD WRECSAM, CEFN Y BEDD**

**(FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 13) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adran 81, 82, 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar xx xx 202- a gellir cyfeirio ato fel (GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT A541 FFORDD WRECSAM, CEFN Y BEDD. (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (DIWYGIAD RHIF 13) 202-

**Darpariaethau Cyffredinol**

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Bydd y rhan o'r ffordd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn bellach yn ffordd gyfyngedig at ddibenion Adran 81 o Ddeddf 1984.

5. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 20 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Mae Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Cyfyngiad Cyflymder 40mya) (Rhif 1) 1966, wedi'i ddirymu yn ei gyfanrwydd ac mae wedi cael ei gydgrynhoi i mewn i'r Gorchymyn hwn.

8. Mewn grym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, bydd Atodlen Map M3 a M4 Rhif Taflen Ddiwygiedig: 2 sydd wedi ei chynnwys yn y Gorchymyn hwn, yn disodli Atodlen Map M3 a M4, Rhif Taflen Ddiwygiedig 1, yng Ngorchymyn (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r terfynau cyflymder cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Ffyrdd Heb Gyfyngiad) Cyngor Sir y Fflint 2023, mewn perthynas â'r ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

## ATODLEN 1
## FFORDD GYFYNGEDIG
## A541 FFORDD WRECSAM, CEFN Y BEDD

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Taflen i'w diwygio |
|---|---|---|
| A541 | M3 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |
| | M4 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |

## ATODLEN 2
## 40 MYA
## A541 FFORDD WRECSAM, CEFN Y BEDD

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Taflen i'w diwygio |
|---|---|---|
| A541 | M3 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** **)**
yn y fan hon )
y XX diwrnod o XXXXXXX 202- )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

**UWCH GYFREITHIWR**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL.
FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD)
(A541 FFORDD WRECSAM, CEFN – Y – BEDD)
(FFORDD GYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER 40mya)
(DIWYGIAD RHIF 13) 202-**

Datganiad o Resymau Dros Argymell Gwneud y Gorchymyn

Yn dilyn darparu cynllun gwella croesfannau â signalau / cerddwyr yng nghyffordd yr A541/B5102 Cefn y Bedd, cyflwynwyd terfyn cyflymder dros dro o 20mya, i leihau cyflymder cerbydau ar y ffordd i'r groesfan i gerddwyr yn unol â'r gwelededd sydd ar gael.

Mae'r Gorchymyn yn ffurfioli Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro, a oedd yn ymestyn y terfyn cyflymder 20mya, er mwyn lleihau cyflymder cerbydau wrth nesáu at y croesfan i gerddwyr, yn unol â'r gwelededd sydd ar gael.

Mae'r Awdurdod yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darparu symudiad cerbydau modur a thraffig arall cyfleus a diogel, ac mae'r mesurau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffyrdd ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Mae manylion y cynigion ar gael yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig 7 Chwefror 2025

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF.

OBUA
32



ROAD TRAFFIC ACT, 1962

THE COUNTY COUNCIL OF FLINT (40 m.p.h. SPEED LIMIT)
(NO. 1) ORDER, 1966

The County Council of Flint in exercise of their powers under section 11(1) of the Road Traffic Act, 1962, after consultation with the Chief Officer of Police for the County of Flint and with the consent of the Secretary of State for Wales, hereby order as follows:-

1. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of road specified in the Schedule to this Order

2. The Interpretation Act, 1889 shall apply for the interpretation of this Order as it applies for the interpretation of an Act of Parliament

3. This Order may be cited as the County Council of Flint (40 m.p.h. Speed Limit) (No. 1) Order, 1966.

THE COMMON SEAL of THE COUNTY COUNCIL OF FLINT was hereunto affixed this twenty-second day of June 1966 in the presence of:-

E. Williams Thomas


Chairman

[signature]

DEPUTY Clerk

THE SCHEDULE

That length of the Wrexham-St. Asaph Road (A.541) at Cefn-y-Bedd which extends from the boundary between the Counties of Flint and Denbigh, at the bridge over the River Alyn, in a northerly direction for a distance of 550 yards.




© Crown copyright and database rights, 2025. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2025. OS 100023386.

## Legend / Eglurhad

- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy’n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL


**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS, RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) (AMENDMENT 13) ORDER 202x.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A’R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL, FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 13) CYNGOR SIR Y FFLINT 202x.**

**Sheet M3 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 2

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** xx/xx/xxxx




© Crown copyright and database rights, 2025. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2025. OS 100023386.



## Legend / Eglurhad

- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS, RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) (AMENDMENT 13) ORDER 202x.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL, FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 13) CYNGOR SIR Y FFLINT 202x.**

| | |
|---|---|
| **Sheet M4 Dalen** | **Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 2 |
| | **Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** xx/xx/xxxx |




CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW
CHECKED BY: LS
SCALE: 1: NTS @ A3
NAT. GRID REF: 331141 356065


PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

A541 Cefn y Bedd
Proposed Speed Limit
Proposed 20mph Speed Limit

(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER: HT/25/A541 101 P1



© Crown copyright and database rights, 2023. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2023. OS 100023386.

## Legend / Eglurhad


- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2023.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2023.**

| | |
|---|---|
| **Sheet M3 Dalen** | |
| **Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** | **1** |
| **Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** | **19/09/2023** |




© Crown copyright and database rights, 2023. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2023. OS 100023386.

## Legend / Eglurhad

- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2023.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2023.**

| | |
|---|---|
| **Sheet M4 Dalen** | |
| **Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** | **1** |
| **Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** | **19/09/2023** |